

Mark Drakeford AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

22 Chwefror 2018

Annwyl Mark

Yn ystod hydref 2016, sefydlodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon gyfres o amcanion strategol ar gyfer y Pumed Cynulliad a chytunodd i ystyried ei holl waith yng nghyd-destun yr amcanion hyn. Rwy'n ysgrifennu atoch yn eich capasiti fel Cadeirydd Grŵp Cyngori Ewropeaidd Llywodraeth Cymru ac mewn perthynas â'n pumed amcan strategol – ystyried goblygiadau'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Ym mis Tachwedd 2016, cododd y Pwyllgor y mater o ran y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (Brexit) gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017–18. Ar y pryd, gwnaethom ddweud bod angen bod yn hyderus bod gwaith yn mynd rhagddo yn Llywodraeth Cymru i gynllunio ar gyfer nifer o bosibiliadau yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas â meysydd allweddol megis staffio, ymchwil, rheoleiddio a chyllido. Ystyriwyd ymhellach oblygiadau Brexit yn ystod ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018–19.

Roedd ein hadroddiad i Recriwtio meddygol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017, yn edrych ar oblygiadau Brexit i recriwtio meddygol. Yn ystod ein gwaith o gasglu tystiolaeth, mynegwyd pryderon ynghylch canlyniadau posibl ac ansicr iawn Brexit ar staff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Daethom i'r casgliad fod angen trafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU i egluro gallu gwladolion yr Undeb Ewropeaidd i barhau i weithio yn y DU, yn ogystal â gallu gweithio fel gweithwyr proffesiynol ym maes meddygaeth yng Nghymru yn y dyfodol.




Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi cyhoeddi ei adroddiad 'Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?' yn gynharach y mis hwn. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ataf i dynnu sylw penodol at adrannau 3.2 a 3.4 o'r adroddiad, sy'n gwneud sylwadau ar newidiadau i reolau mewnfudo a goblygiadau i iechyd ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Rydym wedi nodi cryfder y pryder a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch atal clefydau, rheoleiddio technolegau iechyd, trefniadau gofal iechyd dwyochrog, a chydweithredu ac arloesi ymchwil. Rydym hefyd wedi nodi, yn eich tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, eich bod yn dweud bod y goblygiadau i iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cael sylw gan uwch-swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru ac yn cael eu cydgysylltu drwy Is-bwyllgor y Cabinet a'r Grŵp Swyddogion Trawsnewid Ewropeaidd.

Trafododd yr Aelodau y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn ystod ein cyfarfod ar 14 Chwefror. Yn dilyn y drafodaeth honno, hoffwn ofyn ichi roi gwybodaeth i'r Pwyllgor hwn am sut y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau cydweithrediad parhaus gyda'r Undeb Ewropeaidd ar y materion a amlinellir uchod ac ar faterion eraill fel cydnabod cymwysterau meddygol, cynnal cysylltiadau ymchwil meddygol, a chydweithrediad parhaus ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Cofion cynnes



Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Copi at:

Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol

David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol